YM MATER RHEOLIADAU'R HEDDLU (YMDDYGIAD) 2020

YN ACHOS PC 6123 SALMAN MALIK

Gwrandawiad Camymddwyn Carlam ar 19 Chwefror 2025

Gan

Y Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan

Penderfyniad ar Ganlyniad

Mae Cwnstabl yr Heddlu 6123 Salman Malik yn bresennol yn y Gwrandawiad Camymddwyn Carlam hwn heddiw ac mae'n cael ei gynrychioli gan ei gyfaill o Ffederasiwn yr Heddlu, Rhingyll yr Heddlu David Rich.

Y ffeithiau

Cytunir i raddau helaeth ar y ffeithiau cefndir sy'n ymwneud ag ymddygiad PC Malik pan nad oedd ar ddyletswydd, sydd wedi arwain at yr honiad ei fod wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol.

Mae'n hysbys, pan nad oedd ar ddyletswydd ar 11 Tachwedd 2023, mai PC Malik oedd gyrrwr cerbyd modur Tesla â'r rhif cofrestru LD70 AOT. Roedd wedi gyrru'r car o Gaerdydd i Gaerlŷr ac am 16:54 cafodd ei stopio gan ddau o swyddogion yr heddlu o Heddlu Swydd Gaerlŷr, PC Jackson a PC Kirk. Cafodd y rhyngweithiad rhwng y ddau swyddog o Heddlu Swydd Gaerlŷr a PC Malik ei recordio ar Gamera Fideo a Wisgir ar y Corff a pharodd ychydig dros 38 munud.

Nododd PC Jackson a PC Kirk, gan ddefnyddio dyfais a ddarparwyd gan yr heddlu, nad oedd yswiriant ar gyfer y cerbyd. Darparodd PC Malik ei drwydded yrru pan ofynnwyd iddo wneud hynny. Rhoddodd wybod i'r swyddogion mai car ei chwaer oedd y cerbyd a bod ganddo yswiriant dros dro i yrru'r cerbyd. Yn anffodus i PC Malik, daeth yn hysbys nad oedd hyn yn wir.

Gofynnodd PC Malik am gael siarad â PC Kirk oddi wrth y Camera Fideo a Wisgir ar y Corff am ei fod yn swyddog yr heddlu. Gwrthodwyd y cais hwn. Yna gofynnodd PC Malik am gael siarad â'i chwaer â'r ffenestr ar gau am ei fod yn teimlo'n anghyfforddus yn cael y sgwrs o flaen y swyddogion am ei fod yntau hefyd yn swyddog heddlu. Dywedodd PC Jackson wrtho nad oedd ei alwedigaeth yn berthnasol.

Yna siaradodd PC Malik â'i chwaer â ffenestr y gyrrwr wedi'i chau yn rhannol. Mae'n deg dweud bod PC Kirk a PC Jackson wedi dechrau amau gweithredoedd PC Malik ac, am gyfnod o leiaf, nid oeddent yn credu ei fod yn swyddog yr heddlu. Roedd PC Kirk yn credu y gallai weld PC Malik yn ceisio prynu yswiriant ar ei ffôn symudol a, daeth yn hysbys yn ddiweddarach mai dyma oedd yn digwydd.

Pan orffennodd PC Malik yr alwad â'i chwaer, cadarnhaodd mai ef oedd y person a oedd wedi trefnu'r yswiriant ar gyfer y cerbyd yn wreiddiol a'i fod wedi cofnodi'r rhif cofrestru anghywir ac, o ganlyniad i hynny, ei fod wedi yswirio LD20 AOT yn hytrach nag LD70 AOT. Dywedodd PC Malik ei fod wedi gwneud camgymeriad gwirioneddol a gonest ac y byddai'n datrys y broblem cyn parhau â'i daith.

Yn dilyn sgwrs bellach â'i chwaer, rhoddodd PC Malik ei ffôn symudol i PC Jackson a oedd yn cynnwys polisi yswiriant a oedd yn cwmpasu defnydd PC Malik o'r cerbyd. Fodd bynnag, pan astudiodd PC Jackson y wybodaeth ymhellach, nodwyd mai amser y polisi yswiriant oedd 17:06 ar 11 Tachwedd 2023. Yn hollbwysig, cafodd PC Malik ei stopio am 16:54 ac aeth ati i brynu yswiriant ar gyfer ei ddefnydd o'r cerbyd ar ôl iddo gael ei stopio gan y swyddogion a phan oedd yn eistedd yn y car ac yn siarad â'r swyddogion. O ganlyniad i hyn, roedd yn glir bod PC Malik wedi gyrru'r cerbyd modur heb yswiriant. Parhaodd PC Malik i ddweud bod ganddo yswiriant cyn cyfaddef yn y diwedd nad oedd yswiriant ganddo. Hefyd, cyfaddefodd PC Malik ei fod wedi dweud celwydd wrth y swyddogion mewn ymgais i guddio'r ffaith nad oedd ganddo yswiriant.

Adroddwyd am PC Malik mewn perthynas â'r drosedd o yrru cerbyd modur heb yswiriant yn groes i adran 143 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 ac Atodlen 2 i Ddeddf Troseddwyr Traffig Ffyrdd 1988.

Yna atafaelwyd y cerbyd gan PC Jackson a PC Kirk a gwnaethant drefnu iddo gael ei roi dan ofal yr heddlu am nad oedd wedi'i yswirio ar yr adeg berthnasol.

Ymddangosodd PC Malik gerbron Llys Ynadon Loughborough ar 2 Ebrill 2024 a phlediodd yn euog i yrru cerbyd modur heb yswiriant. Y ddedfryd a gafodd PC Malik oedd dirwy o £430 a rhoddwyd 6 phwynt cosb ar ei drwydded yrru. Gorchmynnwyd i PC Malik dalu gordal o £172 hefyd a chostau o £110. O ran hyn, cyfeiriaf at y Dystysgrif Euogfarn a geir ar dudalen 29 o'r bwndel.

Pan gyfwelodd Adran Safonau Proffesiynol Heddlu De Cymru â PC Malik, cyfaddefodd yr euogfarn a derbyniodd ei fod wedi dweud celwydd wrth PC Jackson a PC Kirk wrth ryngweithio â nhw. Roedd yn derbyn fod hynny'n amhriodol.

Mae'r Awdurdod Priodol yn honni bod gweithredoedd PC Malik yn torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mewn perthynas â'r canlynol:

> Safon 1: Gonestrwydd ac Uniondeb, sef: *"Mae swyddogion yr heddlu yn onest, yn gweithredu gydag uniondeb ac nid ydynt yn peryglu nac yn camddefnyddio eu swydd";*
>
> Safon 9: Ymddygiad Annheilwng, sef: *"Mae Swyddogion yr Heddlu yn ymddwyn mewn ffordd nad yw'n dwyn anfri ar Wasanaeth yr Heddlu nac yn tanseilio hyder y cyhoedd ynddo, p'un a fyddant ar ddyletswydd neu ddim ar ddyletswydd. Mae Swyddogion yr Heddlu yn rhoi gwybod am unrhyw gamau a gymerir yn eu herbyn am drosedd, unrhyw amodau a osodir arnynt gan lys neu unrhyw hysbysiad cosb a gyflwynir iddynt.*

Safbwynt yr Awdurdod Priodol yw bod ymddygiad PC Malik, yn unigol neu ar y cyd, yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol, hynny yw, bod yr achosion o dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mor ddifrifol fel eu bod yn cyfiawnhau ei ddiswyddo.

Mae PC Malik wedi nodi ei safbwynt yn ei ymateb ysgrifenedig i'r honiadau o dan Reoliad 54, ym mharagraffau 2 a 3 fel a ganlyn:

2. *"Rwyf yn derbyn bod fy ymddygiad ar 11 Tachwedd 2023 wedi torri safonau ymddygiad proffesiynol mewn perthynas ag ymddygiad annheilwng. Fodd bynnag,*

nid wyf yn derbyn Camymddwyn Difrifol mewn perthynas â Gonestrwydd ac Uniondeb."

3. *"Rwyf yn derbyn bod fy ymddygiad ar y cyd yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol."*

Rwyf yn ddiolchgar i PS Rich am egluro ymateb PC Malik i'r honiadau heddiw, sef:

a) Mae PC Malik yn cyfaddef Ymddygiad Annheilwng a'i fod yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol;
b) Mae'n gwadu ei fod wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mewn perthynas â Gonestrwydd ac Uniondeb;

Mae PC Malik wedi dewis peidio â rhoi tystiolaeth lafar heddiw, yn unol â'i hawl, ac nid wyf yn beirniadu ei benderfyniad. Mae'n golygu nad wyf wedi clywed ganddo, ond rwyf wedi darllen Datganiad Amddiffyn a gyflwynwyd gan PS Rich ar ei ran, ac rwyf wedi'i ystyried yn ofalus. Rwyf wedi darllen bwndel y gwrandawiad yn fanwl, gan gynnwys yr Ymateb Rheoliad 54, ac rwyf wedi gwrando ar y sylwadau a wnaed gan PS Rich. Rwyf wedi cymryd cryn amser i fyfyrio ar y dystiolaeth sydd o'm blaen, ac rwyf wedi astudio tystlythyrau cymeriad a gyflwynwyd i mi.

Mae PC Malik wedi cyfaddef bod ei ymddygiad yn Ymddygiad Annheilwng a'i fod yn gyfystyr â Chamymddwyn Difrifol. Yn ôl pwysau tebygolrwydd, credaf fod hyn yn wir a bod yr honiad yn gywir.

Mewn perthynas â Gonestrwydd ac Uniondeb, yn ôl pwysau tebygolrwydd, o dan yr holl amgylchiadau penodol, credaf fod yr honiad wedi cael ei brofi. Rwyf hefyd wedi fy modloni bod ymddygiad y swyddog yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol.

Canlyniad

Ar ôl dyfarnu achos o gamymddwyn difrifol am Ymddygiad Annheilwng a thorri'r safon Gonestrwydd ac Uniondeb, mae'n rhaid i mi ystyried y canlyniad priodol. Wrth wneud y penderfyniad hwn ar ganlyniad, rwyf wedi rhoi ystyriaeth lawn i Ganllawiau'r Coleg Plismona ar Ganlyniadau mewn Achosion Camymddygiad yr Heddlu a fu'n sail i'm casgliad. Rwyf wedi profi difrifoldeb yr honiad a diben gosod cosb, y mae'n rhaid i mi eu hystyried wrth wneud

penderfyniad ar ganlyniad. Rwyf wedi rhoi sylw dyladwy i feiusrwydd, niwed, unrhyw ffactorau gwaethygol ac unrhyw ffactorau lliniarol fel y'u nodir yn y Canllawiau.

Wrth asesu difrifoldeb yr ymddygiad, rwy'n cydnabod po fwyaf beius yw'r ymddygiad dan sylw, y mwyaf difrifol yw'r ymddygiad a'r mwyaf difrifol fydd y canlyniad tebygol. Mae pob swyddog yr heddlu mewn swydd o ymddiriedaeth a chyfrifoldeb, ac rwy'n ymwybodol bod PC Malik wedi torri'r ymddiriedaeth honno. Mae hyn yn cynyddu'r lefel beiusrwydd.

Mae Gonestrwydd ac Uniondeb yn ofynion sylfaenol i unrhyw swyddog yr heddlu ac mae'r ffaith i PC Malik dorri'r safon hon yn bryder difrifol. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth ei fod yn edifarhau am ymddwyn yn y ffordd y gwnaeth a haeru bod ganddo yswiriant er ei fod yn gwybod nad oedd hyn yn wir. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod ei fod wedi dweud celwydd wrth gyd-swyddogion yr heddlu neu, ar y gorau, eu camarwain, pan oeddent yn ymchwilio i fater a oedd yn ymwneud ag ef. Mae hyn yn annerbyniol.

Mae euogfarn am fod heb yswiriant bob amser yn fater difrifol. Mae'n gwbl annerbyniol i swyddogion yr heddlu sy'n gyfrifol am orfodi'r gyfraith dorri'r gyfraith eu hunain. Rwy'n cydnabod y gall trosedd gymharol ddibwys fod yn ddifrifol iawn yn y cyd-destun proffesiynol.

Y niwed a achoswyd gan ymddygiad PC Malik yw niweidio enw da, ac mae'n effeithio ar wasanaeth yr heddlu a hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth cyfan. Un o'r ffactorau pwysicaf yw effaith yr achos o gamymddwyn ar statws ac enw da y proffesiwn cyfan. Rwyf wedi fy modloni bod PC Malik wedi achosi niwed i'r enw da hwnnw.

Mae ffactorau gwaethygol yn ffactorau sy'n tueddu i waethygu amgylchiad yr achos, mewn perthynas â beiusrwydd y swyddog neu'r niwed a achoswyd. Mae elfen o gelu drygioni ynghyd â chael budd personol gan mai nod gweithredoedd PC Malik oedd osgoi euogfarn am yrru heb yswiriant. Parhaodd ymddygiad PC Malik ar ôl iddo sylweddoli ei fod yn amhriodol, neu y dylai fod wedi sylweddoli hynny. Mae ei weithredoedd wedi gwyro'n sylweddol oddi wrth y cyfarwyddiadau, y gorchmynion a pholisi a chyfraith gwlad yn gyffredinol. Yn fy marn i, mae'r rhain yn ffactorau gwaethygol.

O ran unrhyw ffactorau lliniarol sy'n gostwng lefel beiusrwydd a niwed, rwy'n derbyn bod sawl ffactor lliniarol yn bresennol. Mae'r camymddwyn wedi'i gyfyngu i un digwyddiad ac ni pharodd yn hir iawn, oddeutu 15 munud i bob pwrpas. Wrth i'r digwyddiad fynd rhagddo,

cyfaddefodd PC Malik i'r swyddogion yn y diwedd nad oedd ganddo yswiriant a'i fod wedi eu camarwain. Ar ôl cael ei herio, cymerodd gamau ar unwaith i gywiro pethau, gan gyfaddef ei fod wedi gwneud camgymeriad ac roedd yn ymddangos i edifarhau'n llwyr am ei ymddygiad. Yn ei gyfweliad, gwnaeth PC Malik gyfaddefiadau agored gan ymddiheuro dro ar ôl tro.

Plediodd PC Malik yn euog i'r cyhuddiad o yrru heb yswiriant ar y cyfle cyntaf posibl. Ers y digwyddiad, mae wedi dangos edifeirwch a mewnwelediad gwirioneddol ac mae wedi ymddiheuro'n llaes am ei weithredoedd heddiw. Mae wedi derbyn cyfrifoldeb am ei weithredoedd. Rwy'n rhoi clod llawn iddo am yr holl faterion hyn, ac rwy'n siŵr y bydd yn dysgu o'r wers galed hon.

Rwyf wedi atgoffa fy hun o dri diben canlyniadau achosion camymddygiad yr heddlu, sef cynnal hyder y cyhoedd mewn plismona ac enw da gwasanaeth yr heddlu; cynnal safonau uchel o ran plismona ac atal camymddwyn; a diogelu'r cyhoedd.

Rwyf hefyd wedi ystyried y ffactorau lliniarol personol a gyflwynwyd ar ran PC Malik. Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r Ymateb Rheoliad 54 ysgrifenedig, rwyf wedi darllen y tystlythyrau cymeriad a ddarparwyd ganddo ac wedi rhoi ystyriaeth lawn i'w gofnod o wasanaeth. Rwyf hefyd wedi rhoi cryn sylw i'r cyflwyniadau llafar a wnaed gan PS Rich yn y gwrandawiad hwn heddiw.

Fel cam olaf y broses o wneud penderfyniad ar ganlyniad, mae rhwymedigaeth arnaf i ystyried y canlyniadau lleiaf difrifol cyn ystyried canlyniadau mwy difrifol. Mae'n bwysig bod y canlyniad yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion a nodwyd, wrth ddiogelu budd y cyhoedd a chyflawni diben triphlyg achosion camymddwyn yr heddlu.

Awgrymir gan PS Rich ar ran PC Malik mai'r canlyniad priodol yw Rhybudd Ysgrifenedig Terfynol. Ar ôl rhoi ystyriaeth drylwyr i'r holl amgylchiadau, rwyf wedi dod i'r casgliad nad oes gennyf unrhyw ddewis heblaw am benderfynu y dylai PC Malik gael ei ddiswyddo ar unwaith.

Ar 11 Tachwedd, cafodd PC Malik ei stopio gan swyddogion yr heddlu gan fod eu systemau wedi dangos nad oedd y cerbyd yr oedd yn ei yrru wedi'i yswirio. Rhaid dweud bod y swyddogion a ymdriniodd â PC Malik wedi gwneud hynny â chwrteisi a phroffesiynoldeb; gellid tybio bod PC Malik wedi stopio cerbydau ar adegau yn ystod ei yrfa er mwyn ymdrin

ag aelodau'r cyhoedd o dan amgylchiadau tebyg ac y byddai wedi gobeithio a disgwyl y byddent yn onest gydag ef. Mae hyd yn oed yn fwy gwaethygol felly, ac yntau'n swyddog yr heddlu, ei fod wedi dechrau siarâd anonest mewn ymgais i guddio'r gwir oddi wrth swyddogion a oedd ond yn gwneud eu gwaith.

Ar ôl gwylio'r deunydd fideo o'r camera a wisgir ar y corff ar sawl achlysur, mae'n amlwg i mi fod ymgeisiau parhaus PC Malik i honni bod yr hyn yr oedd yn ei ddweud yn wir yn fwy na phenderfyniad dros dro yn unig a'i fod yn ceisio byw'r celwydd am gyfnod estynedig a, phe bai'r swyddogion wedi'i gredu, byddai wedi byw'r celwydd hwnnw am byth. Ceisiodd PC Malik dwyllo'r swyddogion a dim ond drwy eu hymchwiliad trylwyr a'u her y sylweddolodd nad oedd am lwyddo.

Er ei bod yn drosedd ddifrifol, mae'n bur debyg na fyddai gyrru heb yswiriant wedi arwain at ei ddiswyddo o blismona. Roedd ei fwriad i dwyllo swyddog yr heddlu ymhell o dan y safonau yr wyf yn eu disgwyl gan swyddog yr heddlu, ac felly nid oes gennyf unrhyw ddewis ond ei ddiswyddo.

Rwyf yn derbyn ei bod yn bosibl bod PC Malik wedi ymateb yn y ffordd honno ‘yn y fan a'r lle’ ond mae'n peri gofid i mi y byddai ei werthoedd sylfaenol yn golygu, yn wyneb pwysau o'r fath, y byddai'n troi at anonestrwydd ac yn gweithio'n galed i dwyllo.

Mae hefyd yn destun gofid i mi yr ymddengys bod PC Malik o'r farn bod arfer disgresiwn a chelu pethau yn gyfystyr â'i gilydd o dan rai amgylchiadau; mae hynny'n gwneud i mi deimlo'n anghyfforddus, ei fod yn ystyried fel swyddog yr heddlu y gallwch fod uwchlaw'r gyfraith ac nad ydych yn ddarostyngedig iddi.

Rwyf yn cydnabod nad yw aelodau'r cyhoedd wedi cael eu niweidio'n uniongyrchol yn yr achos hwn ac, yn wir, pe na bai'r swyddogion a stopiodd PC Malik wedi ymddwyn mor ardderchog efallai na fyddent wedi dod i wybod am hyn byth; ond rwyf i'n gwybod.

Fel Prif Gwnstabl mae dyletswydd arnaf, ar ran plismona a'r cyhoedd ehangach, i osod safonau ym maes plismona. Yn fy marn i, mae hyn yn golygu bod angen i mi ymddiried ym mhob person sy'n gweithio i mi, hyd eithafoedd byd, yn gyntaf ac ar eu rhan; bob dydd mae pobl sy'n gweithio i Heddlu De Cymru yn fy nghynrychioli i fel swyddog yr heddlu.

Mae'r cyhoedd a'm cydweithwyr yn disgwyl i mi fodloni fy hun bod gonestrwydd ac uniondeb swyddogion yr heddlu yn ddi-fai; ni allaf wneud hyn yn achos PC Malik mwyach.

Yn fy marn i, **nid** yw Rhybudd Ysgrifenedig Terfynol estynedig am gyfnod o 5 mlynedd yn ganlyniad digonol ar gyfer holl amgylchiadau'r achos.

Er bod amgylchiadau lliniarol ac rwy'n cydnabod bod PC Malik wedi rhoi ei hun mewn sefyllfa yr oedd yn amhosibl iddo ddod allan ohoni, yn anffodus iddo, roedd yn rhy hwyr erbyn hynny. Roedd yn anonest wrth ymgysylltu â'r ddau swyddog heddlu a oedd yn gwneud eu dyletswydd. Dywedodd wrthynt fod ganddo yswiriant er nad oedd hyn yn wir. Yna aeth ati i'w camarwain ymhellach drwy drefnu yswiriant ar ôl iddo gael ei stopio. Mae hyn yn ymddygiad cwbl annerbyniol i swyddog yr heddlu. Fy mhenderfyniad ar y Canlyniad yw fy mod wedi fy modloni bod y camymddwyn mor ddifrifol fel mai'r unig Ganlyniad priodol yw i PC Malik gael ei ddiswyddo.

Ni chaiff y math hwn o ymddygiad ei dderbyn gan Heddlu De Cymru. Mae'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol yn gymwys o'r eiliad y byddwch yn cerdded drwy'r drws. Nid yw'r math hwn o ymddygiad yn dderbyniol.

Mae'r mwyafrif llethol o swyddogion yr Heddlu, staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio i Heddlu De Cymru yn ymddwyn yn berffaith ac yn gweithio'n ddiflino i ddiogelu'r cyhoedd. Mae'r nifer prin iawn ohonynt sy'n dewis mynd yn groes i'r safonau a ddisgwylir ohonynt yn tanseilio hyder y cyhoedd mewn plismona.

Yn unol â Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, caiff Canfyddiadau a Chanlyniad y gwrandawiad hwn eu hatgyfeirio at y Coleg Plismona er mwyn i Gwnstabl yr Heddlu 6123 Salman Malik gael ei roi ar Restr o Swyddogion a Staff Gwaharddedig yr Heddlu.